Enw



DARLLENWCH
1 Samuel 20: 1-42



ADNOD ALLWEDDOL
1 Samuel 20: 17

# Gwers 4 Bywyd Dafydd – Ffrindiau â Jonathan

Os oes gennych chi ffrind gorau, beth ydych chi'n ei ddisgwyl o'r cyfeillgarwch hwnnw?

**C Rhowch gylch o gwmpas y pethau fyddech chi'n disgwyl i ffrind da ei wneud.** 3

Gwrando arnoch chi. Eich siomi. Dweud celwydd amdanoch.

Eich rhybuddio os bydd perygl. Eich helpu os bydd yn gallu.

Roedd Dafydd a Jonathan yn ffrindiau da ac roedden nhw'n cael sgwrs bwysig.



**C Darllenwch adnodau 1 – 4 a rhoi rhifau ym mocsys 1 – 4 i ddangos ym mha drefn y cafodd y brawddegau hyn eu dweud.
Hefyd, rhowch ✓ i ddanogs pa un ai 'Jonathan' ynteu 'Dafydd' a'u dywedodd nhw.** 4

| | | Jonathan | Dafydd |
|---|---|---|---|
| ❑ | "Dim ond cam sydd rhyngof i ac angau." | ❑ | ❑ |
| ❑ | "Beth wnes i?" | ❑ | ❑ |
| ❑ | "Ni fyddi farw." | ❑ | ❑ |
| ❑ | "Beth a ddymuni i mi ei wneud i ti?" | ❑ | ❑ |

Meddyliodd Dafydd am gynllun i gael gwybod yn iawn a oedd Saul yn bwriadu ei ladd.

**C Defnyddiwch yr ymadroddion isod i gwblhau'r brawddegau.** 5

**fwyta gyda'r brenin / lleuad newydd / guddio yn y cae /
colli ei dymer / mynd i Fethlehem**

Drannoeth roedd _______________. Doedd Dafydd ddim yn mynd i _________________________ ond roedd am ________________________. Pan welai Saul nad oedd Dafydd yno,

byddai Jonathan yn dweud bod Dafydd wedi gorfod ________________________.

Byddai Saul naill ai'n dweud "Popeth yn iawn" neu'n ______________________.

Addawodd Jonathan y byddai'n rhoi gwybod i Dafydd sut oedd Saul wedi ymateb. Gofynnodd Jonathan i Dafydd addo bod yn garedig iddo ef a'i deulu i gyd pan fyddai ef yn frenin a'i elynion i gyd wedi'u dinistrio.

**C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.** 2

Sut oedd Jonathan yn mynd i roi gwybod i Dafydd beth oedd wedi digwydd? Cynllun arall! Mae hyn yn swnio fel stori antur ond mae'n wir!

**C Rhowch ✓ wrth y frawddeg a fyddai'n dangos bod Dafydd yn ddiogel ac na fyddai'n rhaid iddo ofni Saul. (Adnodau 21 a 22)**

"Mae'r saethau y tu yma i ti." ❑ "Mae'r saethau y tu draw i ti." ❑

1

Soniodd Saul ddim am y peth pan nad oedd Dafydd wrth y bwrdd ar y diwrnod cyntaf. Ar yr ail ddiwrnod, roedd yn flin.


**C Darllenwch adnodau 33 a 34 ac yna ysgrifennwch:**

**1 Beth a wnaeth Saul. 2. Beth a wnaeth Jonathan.**

| |
|---|
| 1 |
| 2 |

2

**C Dilynodd Jonathan y cynllun a saethodd y saethau fel y trefnwyd. Ysgrifennwch yn y swigen siarad beth waeddodd Jonathan wrth i'r llanc fynd i gasglu'r saethau. (Adnod 37)**



1

Mae hyn yn dangos bod Jonathan yn poeni am ddiogelwch ei ffrind. Mae'n dangos hefyd ei fod yn ffrind da iddo. Roedd Jonathan a Dafydd yn poeni na fyddent yn gweld ei gilydd byth eto. Fe wnaethon nhw addo bod yn ffrindiau am byth, beth bynnag fyddai'n digwydd.
Mae'n bwysig ein bod ninnau'n cadw ein haddewidion ac yn aros yn driw i'n ffrindiau. Mae yna un Ffrind sy'n ein caru ac yn gofalu amdanom beth bynnag sy'n digwydd.



**C Rhowch y llythrennau yn y drefn gywir i weld ei enw.**

R Y   D D Y R A W L G   S I E U   R T G I S

__ __   __ __ __ __ __ __ __ __   __ __ __ __   __ __ __ __ __

2

Roedd Dafydd yn caru Duw ac yn gallu cyfrif ei fendithion am fod ganddo ffydd yn Nuw. Os ydi Iesu yn Arglwydd ac yn Waredwr i ni, gall ef ein helpu o ddydd i ddydd trwy'n bywydau.

**cyfanswm**

Marciau
[i'w nodi gan yr athro]

Cyfanswm

Cyfanswm llawn

SAFON 3 C7

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120